CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 17 MAWRTH 2009

Presennol
Ei Theilyngdod y Maer – Cyng. M Powell-Jones

Cynghorwyr
H W Roberts, W R Owen, H Edwards, R Anderson, O T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, M Davies, R Bonner Pritchard, M Thomas, W LL Davies, A Roberts

Siaradwr Gwadd : Cynrychiolydd o'r Gwarchodlu Cymreig

Croesawodd y Maer – W0 2 Warren Williams a darllenodd y llythyr o ddymuniadau da y Cyngor ar gyfer y daith i Afghanistan

Diolchodd Warren i'r Maer am ei geiriau caredig gan egluro bod rhai wedi gadael yn barod, a bod rhai eraill yn mynd ar 30 Mawrth.

Mae pawb yn gobeithio iddynt dychwelyd adref yn saff

Eglurodd Warren bod na wasanaeth arbennig yn cael ei gynnal y dydd Llun dilynol lle byddai cynnwys ein llythyr yn cael ei ddarllen i'r Bataliwn

Nododd pa mor falch yr oeddent o'r cysylltiadau cryf a Chaernarfon, ac yn gobeithio yn fawr iddynt allu trefnu Orymdaith Rhyddfreiniet ar ôl dychwelyd

1. Ymddiheuriadau
Cyng. W T Owen

2. Datgan Buddiant Personol
I C Thomas – Cynllunio
W R Owen – Cynllunio
H Edwards – Cynllunio

3. Eitemau brys
Diweddariad parcio – angen ymateb erbyn 1 Ebrill

(cyrhaeddodd Cyng. A Kirk 6.10)

4.Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion ir awdurdod priodol

5. **Cyfrifon**

I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Llywodraeth Cynulliad Cymru

- Gorchymyn gwyro priffyrdd – Lon Twthill ger Gwesty'r Celt

(haw l i weithredu)

Penderfynwyd
Anfon llythyr i'r cynulliad gan ofyn am y canlynol

- Bod rhaid i'r Celtic rhoi wyneb tarmac safonol ar y wyneb (a darganfod pwy fydd efo cyfrifoldeb am ei cynnal a chadw)
- Arwyddion clir (ddwyieithog) yn egluro bod y lon yn mynd i Twthill ac yn lwybr cyhoeddus

7. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gorchymyn dileu – Ffordd y Doc, Doc Fictoria

Rhoddwyd diweddariad o'r cyfarfod brys
(hawl i weithredu)

Penderfynwyd
Anfon llythyr i'r cynulliad yn nodi y canlynol

- Bod Cyngor Tref yn dymuno cadw'r lon yn agored gan i'r pier fod yn fwynder cyhoeddus, ac y dylai fod ar gael i'r cyhoedd. (gan cynnwys copi o lythyr Jeff St Paul 7 Gorff 2006)
- Ond yn ogystal –os yw'r cynulliad yn caniatáu cau'r lon iddynt ystyried y ddau bwynt yma – bod angen newid y geirfa yn y gorchymyn i "defnyddwyr y Pier" a bod angen newid y system bollards i system braich yn codi trwy "key fob"

(ni phleidleisiodd Cyng W R Owen)

8. Cyngor Gwynedd

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd – Arfaethedig Pellach)
Penderfynwyd
I'r sawl sydd yn dymuno ateb gwneud hynny yn uniongyrchol
(ni phleidleisiodd Cynghorwyr Sir ar y pwnc yma)

9. Unllais Cymru

Masnachu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10. Llythyr Delyth Lowe

Penderfynwyd
Ysgrifennu llythyr i Dewi Jones a'r heddlu i ategu'r pryderon

11. Cofnodion Gweithgor

Penderfynwyd
Parc – cefnogi ac eisiau bod yn rhan o'r cynllun, ond angen gweld copi o'r ceisiadau gwreiddiol ar gwaith ymchwil i'r gweithgor a roi Poll ar y wefan i ofyn barn pobl lleol am y parc
Toiledau – Cyngor sir yn dal mewn perchnogaeth tan yr Hydref
Llwybrau cyhoeddus – angen gwaith enfawr i codi safonau cyn ystyried o gwbl i'w cymeryd drosodd

12. Aelodaeth Unllais Cymru

Penderfynwyd
Ymaelodi

13. CADW

Llythyr parthed Robert Charles Michael Vaughan Wynn
Penderfynwyd
Cynnig Seiont II a'r Yacht club fel dau safle priodol , gan nodi os nad oes modd yn rheini iddynt ail gysylltu a ni

14.Rhybudd o Gynnig Cyng. M. P. Jones

Par: Digwyddiadau Dinesig

Penderfynwyd

Cytuno i'r partneriaid sefyll tu ôl yn gwasanaeth Sul y Cofio ond i'r Maer, Dirprwy a 'r Clerc ystyried Protocol i'r Cyngor ar gyfer digwyddiadau Civil

15.Rhybudd o Gynnig Cyng. H. W. Roberts

Par: Carchar

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys y rhybudd (gan ychwanegu anghenion hyfforddiant i rhestr Cyngor Sir)yn ogystal a gwahodd David Hanson i siarad a'r Cyngor

(8.20 Cyng H Edwards yn gadael y cyfarfod)

16.**Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Roberts**

Par: Baw Cwn

Penderfynwyd

Anfon llythyr i gefnogi swyddogion newydd Cyngor Gwynedd sydd wrthi yn cael eu hyfforddi ac iddynt ail ystyried y gost o £15 i godi gwastraff Mawr

17.Rhybudd o Gynnig Cyng. A. Roberts

Par: TCG

Penderfynwyd

Cefnogi'r Rhybudd gan ofyn wrth Cyngor Gwynedd ystyried, a chwarae rhan yn ein trafodaethau cyn unrhyw daliad eleni

18.Diweddariad Grwp Marchnata – Clerc

Eglurodd y clerc mai dim ond 3 oedd yn y cyfarfod diweddara, ac yn nodi nad yw hi mewn sefyllfa i bleidleisio ar ran y cyngor ac yn awgrymu y dylai rhywun arall gynrychioli'r Cyngor am y rhesymau hyn

Penderfynwyd

Cyng. Hywel Roberts i fynychu ar ran y Cyngor

19. Cwestiynau

Oes modd i cynghorwyr tref cael ymweliad i'r cwrt newydd cyn iddi agor?

20. Gorchymyn Parcio

Diweddariad gan y clerc a Cyng. H W Roberts yn dilyn y cyfarfod olaf, bod nifer o ddogfennau wedi bod yn mynd yn ôl a blaen rhwng y Cyngor a Cyngor Gwynedd ar y pwnc yma. Gan bod na nifer o wallau dal yn bodoli

Penderfynwyd

Cytuno efo cynnwys y gorchymyn parthed canolfannau hamdden, ond gadael allan meysydd parcio Doc Fictoria a hen safle shell nes bydd swyddog o Cyngor Sir yn medru trafod efo'r gweithgor

(ni phleidleisiodd Cyng W R Owen ar y pwnc yma)

Gorffennodd y cyfarfod am 8.55

Arwyddwyd..... Dyddiad.....